

## **Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes**

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 1af o Fedi 2025 am 7.30yh yng Nghanolfan Gymunedol Trelech.

**Cynghorwyr yn bresennol:** Alyson Harries (Cadeirydd), Andrew Jones, Ambrose Lewis, Linda Davies, Dyfed Davies, Arwyn Jones, Derrick Harries, John Phillips, Ann Sillars & Cynghorydd Sir Jean Lewis

**Yn cymryd y Cofnodion:** Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Eirian Howells
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**  
Diolchodd Alyson Harries i bawb am fynychu.
3. **Datgan Buddiannau:**  
Dim.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**  
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 7fed o Orffennaf 2025 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

### **5.Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**

- Roedd Cyfreithwyr Redkite wedi danfon llythyr i berchnogion Lleine parthed y trac i Rhoscrugebolion ond dim ond ymateb aros roeddent wedi derbyn.
- Nid oedd cais am symud y bin newydd i'r postyn agosaf at Clynfelyn wedi cael ei gyflawni.
- Roedd y clerc ac y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi cysylltu gyda'r Cynglor Sir parthed y gwaith cynnal a chadw yn Clynfelyn ond ni dderbyniwyd ymateb boddhaol felly byddai difridoldeb y mater yn cael ei gyfleu i'r Adran Cynnal a Chadw.
- Nid oedd y gwaith atgyweirio ar rhiw Glaspant wedi cael ei ddechrau a nodwyd pryder ymhellach am y diogelwch. Byddai'r Cynghorydd Sir yn cyfleu'r pryder i'r Adran Priffyrdd.
- Roedd y tyllau ar yr heol rhwng Y Goetre a Brynamllwg wedi cael eu llenwi.

### **6. Gohebiaeth**

- a. Roedd anfoneb wrth Cyfreithwyr Redkite am £1602.00 wedi ei dderbyn ac wedi cael ei ddyrannu yn erbyn y taliad ar y cyfrif o £1800.00 a oedd yn golygu fod £198.00 ar ôl ar y cyfrif tuag at y gost o waith parhaus.
- b. Roedd Yswiriant Zurich wedi danfon anfoneb adnewyddu yswiriant am £302.06. Cytunwyd i'w adnewyddu.
- c. Roedd sesiwn hyfforddiant Côt Ymddygiad wedi cael ei ddanfôn ymlaen i bawb drwy ebost.
- ch. Roedd manylion heolydd ar gau wedi cael eu danfon ymlaen i bawb ac roedd y clerc wedi ymgeisio eu nodi ar 'Facebook'.
- d. Cafodd cais am becyn o 420 o goed o'r Ymddiriedolaeth Coed ei gymeradwyo ac byddent yn cael eu dosbarthu ym mis Tachwedd.

### **7.Cyllid**

Cyfrif Busnes Cyfredol £616.46

## **8. Unrhyw Fater Arall**

- Cytunwyd i gael amcan prisiau am ysgythrhu Cadwyn y Cadeirydd wrth gwmniau lleol.
- Cytunodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis i ddilyn i fyny gyda'r adran priffyrdd y ffaith nad oedd y gwaith wedi cael ei wneud ar cyffordd Velindre nac yn Castellmawr.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 8.20yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 3ydd o Dachwedd 2025.